Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, **Llynfi Dental**

5 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol978-1-4734-3889-7


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 7

Profiad y Claf .......... 7

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 15

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 17

6. Y Camau Nesaf .......... 19

Atodiad A .......... 20

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol Llynfi yn 14 Stryd Talbot, Maesteg, CF34 9BT, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 5 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Llynfi Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Llynfi Dental yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys saith deintydd, un hylenydd deintyddol, saith nyrs ddeintyddol (yr oedd un ohonynt yn rheolwr cynorthwyol hefyd), dau staff dadheintio penodedig, derbynnydd, a rheolwr practis. Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy nyrs o dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd mae LIynfi Dental yn bodloni’r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau inni mewn holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod staff yn gwrtais i'r cleifion ac yn barod eu cymwynas. Roedd gwybodaeth am y practis ar gael yn hawdd i gleifion trwy gyfrwng taflen a gwefan y practis.

Yn gyffredinol, roedd y practis yn bodloni'r safonau yn y meysydd hynny a arolygwyd gennym.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Canfuom fod angen i aelod o staff ddiweddaru hyfforddiant yn y maes hwn, a gofynnom i berchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Roedd cyfarpar brys ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai argyfwng claf (cwymp). Serch hynny, rydym wedi argymell perchnogion y practis i roi ystyriaeth i ddarparu offer sugno cludadwy, fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru’r DU.

Roedd trefniadau ar waith i lanhau a sterileiddio offer deintyddol yn ddiogel. Gwnaethom argymell perchnogion y practis i ailystyried ymhle y rhoddir yr awtoclafau yn yr ystafell ddadheintio fel eu bod mewn lleoliad sy'n unol â pholisi a chanllawiau Cymru gyfan.

Mae'r gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth sy'n cadarnhau bod trefniadau ar waith i'w drosglwyddo a'i waredu'n ddiogel.

Nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau i ansawdd cofnodion deintyddol y cleifion, a gofynnom i berchnogion y practis gymryd camau i ymdrin â hyn.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff a'u bod yn gallu derbyn hyfforddiant i ategu eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd safle'r practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, y tu mewn a thu allan. Roedd y mannau a welwyd yn lân, yn daclus, yn derbyn digon o olau ac wedi'u hawyru'n dda.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau inni mewn holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod staff yn gwrtais i'r cleifion ac yn barod eu cymwynas. Roedd gwybodaeth am y practis ar gael yn hawdd i gleifion trwy gyfrwng taflen a gwefan y practis.

Cyn ein hymweliad arolygu, gofynnom i reolwr y practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn 28 o holiaduron llawn yn gyfangwbl cyn, ac ar ddiwrnod, ein harolygiad.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Dywedodd pob claf a gyfrannodd wrthym ei fod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oedd wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol. Yn ogystal, dywedodd pob claf fod tîm y practis yn groesawgar ato a'i fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth. Wrth eu gwahodd i wneud sylwadau ychwanegol, dywedodd y cleifion:

> *'Deintyddfa neis iawn.'*
>
> *'Hyd yma, rydw i'n fodlon â fy nhriniaeth.'*
>
> *'Gwasanaeth da iawn gan y staff i gyd.'*

Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Serch hynny, dywedodd rhai ohonynt (11 o gleifion) nad oeddent yn gwybod. Er bod y rhif cyswllt mewn argyfwng ar gael yn hawdd i gleifion, efallai y byddai perchnogion y practis yn dymuno rhoi ystyriaeth i godi ymwybyddiaeth ohono ymhellach.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Dywedodd y rheiny a brofodd oedi mai'r oedi lleiaf ydoedd ac nad oedd wedi peri problem iddynt.

Roedd y practis wedi cyflwyno gwasanaeth atgoffa trwy neges destun, ac yn ôl sylwadau'r staff, roedd hyn wedi bod yn ddefnyddiol i'r cleifion. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom staff yn bod yn garedig ac yn barod eu cymwynas i'r cleifion.

Roedd system ar waith yn y practis i gywain barn y cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Roedd y staff wedi cynnal archwiliad o'r sylwadau a ddarparwyd gan gleifion rhwng Chwefror ac Ebrill 2015.  Gwelsom fod camau gweithredu wedi cael eu nodi gyda'r nod o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth, yn seiliedig ar yr adborth a roddwyd gan gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys diweddaru taflen y practis i gynnwys mwy o wybodaeth, a neilltuo rhagor o amseroedd apwyntiad ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth ddeintyddol frys. Roedd hyn yn golygu bod cyfleoedd gan y cleifion i roi adborth ar y gwasanaeth a bod tîm y practis yn ystyried eu sylwadau.

Roedd taflen y practis, y gall y cleifion ei chymryd, yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a defnyddiol am y practis. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan y practis.

Dangoswyd gwybodaeth am fandiau prisio'r GIG. Roedd prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion a oedd yn ymweld â'r practis fynediad hawdd at wybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni hybu iechyd ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth a chyngor ar gael i gleifion i'w helpu i ofalu dros eu hunain am hylendid y geg a'u hiechyd.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, roedd y practis yn cyrraedd y safonau yn y meysydd hynny a arolygwyd gennym.**

**Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Canfuom fod angen i aelod o staff ddiweddaru hyfforddiant yn y maes hwn, a gofynnom i berchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod hyn yn digwydd.**

**Roedd cyfarpar brys ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai argyfwng claf (cwymp).Serch hynny, rydym wedi argymell perchnogion y practis i roi ystyriaeth i ddarparu offer sugno cludadwy, fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru'r DU.**

**Roedd trefniadau ar waith i lanhau a sterileiddio offer deintyddol yn ddiogel. Gwnaethom argymell perchnogion y practis i ailystyried ymhle y rhoddir yr awtoclafau yn yr ystafell ddadheintio fel eu bod mewn lleoliad sy'n unol â pholisi a chanllawiau Cymru gyfan.**

**Mae'r gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth sy'n cadarnhau bod trefniadau ar waith i'w drosglwyddo a'i waredu'n ddiogel.**

**Nodwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau i ansawdd cofnodion deintyddol y cleifion, a gofynnom i berchnogion y practis gymryd camau i ymdrin â hyn.**

**<u>Cyfarpar radiograffeg/dogfennau</u>**

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig yn ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X y practis yn ddiogel. Roedd tystysgrifau archwiliadau diogelwch ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X a ddefnyddir yn y practis.

Dangosodd tystysgrifau hyfforddiant fod y staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (RhYÏ(DM)).[4] Fodd bynnag, sylwom fod angen i un aelod o dîm y practis ddiweddaru hyfforddiant am fod ei dystysgrif

---

[4] Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, y cyfeirir atynt fel arall fel RhYÏ(DM).

hyfforddiant yn dynodi bod ei hyfforddiant wedi ei gynnal dros bum mlynedd ynghynt. Felly, dylid trefnu bod yr aelod o staff yn mynychu hyfforddiant diweddaru priodol cyn gynted ag y bo modd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (RhYÏ(DM)) yn gyfredol ar gyfer staff perthnasol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

At ei gilydd, roedd manylion i gyfiawnhau cymryd pelydrau-X wedi eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd sganiau pelydr-X cleifion yn cael eu graddoli a'u cofnodi.

Roedd arwyddion cydnabyddedig yn dynodi bod perygl o ymbelydredd wedi'u gosod wrth fynedfa pob un o'r pedair ystafell driniaeth yn y practis.

**Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau brys**

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (cwymp) yn digwydd yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd offer sugno cludadwy ar gael. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis ac un o'r partneriaid. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi nodi nad oedd y rhain yn angenrheidiol am fod argyfyngau'n fwyaf tebygol o ddigwydd yn yr ystafelloedd triniaeth (lle roedd offer sugno ar gael). Fodd bynnag, mae offer sugno cludadwy ymhlith yr offer sy'n ofynnol ar gyfer dadebru cardio-pwlmonaidd mewn practisau deintyddol sylfaenol, fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru’r DU.[5] Felly, dylai perchnogion y practis ystyried gwneud trefniadau fel y gall staff gael gafael ar y cyfarpar hwn a'i ddefnyddio'n ddiogel pan fo'n angenrheidiol mewn argyfwng.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis ystyried darparu offer sugno cludadwy fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru’r DU yn y ddogfen 'Primary care: minimum equipment and drug lists for cardiopulmonary resuscitation’,***

---

[5] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru rhagorol, gwyddonol sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithrediad.

***Tachwedd 2013. Dylid gwneud trefniadau fel y gall staff gael gafael ar y cyfarpar hwn a'i ddefnyddio'n ddiogel.***

Roedd siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei ddynodi. Gwelsom rai tystysgrifau hyfforddi a oedd yn dynodi bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR). Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y staff i gyd wedi mynychu hyfforddiant o'r fath.

Cedwid cyffuriau brys yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd system ar waith i nodi cyffuriau sydd wedi darfod a rhoi rhai newydd yn eu lle.

## Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn dangos y dull cywir o gael gwared arno. Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra ei fod yn aros i gael ei gasglu.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwaredu â chynnyrch hylendid merched, ond gwnaethom gynnig bod y rhain yn cael eu gwirio i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol ar reoli gwastraff gofal iechyd.

Roedd gan y practis wahanydd amalgam[6] er mwyn cael gwared ar amalgam yn ddiogel.

## Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[7] (Adolygiad 1).

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer a ddefnyddir yn y practis. Roedd tîm penodedig o ddau aelod o staff yn gyfrifol am ddadheintio'r

[6] Dyfais sy'n tynnu gronynnau o amalgam mercwri (sydd mewn rhai llenwadau deintyddol) o ddŵr gwastraff cyn iddo fynd i'r system garthffosiaeth.

[7] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

offer a ddefnyddir yn y practis. Dynodai'r tystysgrifau hyfforddiant eu bod wedi derbyn hyfforddiant addas i berfformio'r rôl.

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân yn y practis, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom drafod safle'r awtoclafau[8] gydag un o'r partneriaid a chynnig eu bod yn cael eu symud o'r ochr 'fudr' i'r ochr 'lân', fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Dynodai cofnodion y llyfrau log fod gwiriadau dyddiol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob awtoclaf a ddefnyddir. Roedd tystysgrifau arolygu cyfredol ar gael hefyd ar gyfer yr awtoclafau a ddefnyddir.

Symudwyd offer rhwng yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio trwy gyfrwng tiwben niwmatig. Diolch i'r system arloesol hon, gallai'r staff anfon offer i'r ystafell ddadheintio heb fod angen eu cario drwy'r practis.

Dywedwyd wrthym fod offer deintyddol na ddefnyddiwyd o fewn mis yn cael eu hail-brosesu (dadheintio). Yn ôl canllawiau cyfredol Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, nid yw hyn yn angenrheidiol a gellir storio offer am gyfnod hirach. Hysbyswyd y partner a oedd yn bresennol o hyn fel y gellir ailystyried y trefniadau presennol.

Roedd tîm y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau ym mis Tachwedd 2014 gan ddefnyddio dull cydnabyddedig a aliniwyd yn benodol i bolisïau a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn caniatáu i'r tîm deintyddol hunanasesu eu harferion mewn perthynas â'r polisi ac i ddatblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses barhaus o wella. Gwelsom fod y cynllun hwn wedi'i ddiweddaru a bod y camau priodol wedi eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Cyfleusterau clinigol**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o’r ystafelloedd triniaeth yn y practis, a chanfod eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Gellid glanhau arwynebau'n hawdd yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn hwyluso'r modd o lanhau ac i leihau'r risg o groes-heintio. Yn yr un modd, roedd cyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu personol ar gael, megis ffedogau, menig, masgiau ac offer diogelu llygaid untro, i'r staff eu defnyddio i helpu i atal

---

[8] Siambr bwysedd yw awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

croes-heintio. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn storio nodwyddau a ddefnyddiwyd yn ddiogel. Dylai'r tîm deintyddol hefyd ystyried defnyddio offer miniog diogelach[9] fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013, ac i leihau'r risg o anafiadau cysylltiedig ymhellach.

Dangosodd cofnodion fod gwiriadau dyddiol wedi cael eu cynnal ar gyfer y cywasgydd,[10] ac roedd tystysgrif archwilio gyfredol ar waith. Gwelsom dystiolaeth fod dyfeisiau trydanol cludadwy wedi cael prawf dyfeisiau cludadwy (PAT) yn ystod y 12 mis diwethaf.

**<u>Cofnodion cleifion</u>**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion a gadwyd gan ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd cofnodion electronig cleifion yn cael eu defnyddio, ac roedd trefniadau ar waith i ategu data'n rheolaidd.

Roedd mwyafrif y cofnodion a welsom yn nodi digon o fanylion ynghylch pam bod cleifion wedi ymbresenoli, y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd, a'r cyngor a roddwyd gan y deintydd. Serch hynny, gwelsom fod ansawdd y cofnodi'n amrywio rhwng y deintyddion, a nodwyd gennym fod angen rhai gwelliannau yn y maes.

Dim ond nodiadau cryno oedd mewn rhai cofnodion, ac felly ni allem fod yn sicr o'r rhesymau dros gynnal rhai triniaethau. Canfuom hefyd fod sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol[11] (BPE) heb gael eu cofnodi bob amser. Byddai cofnodi'r rhain yn dangos bod risg claf o ddioddef o glefyd y deintgig wedi cael ei asesu gan y deintydd.

At hynny, roedd hanes meddygol ysgrifenedig pob claf wedi cael ei gwblhau, ond nid oedd cofnodion bob amser yn dynodi ei fod wedi cael ei ddiweddaru na'i lofnodi/cydlofnodi gan y claf/deintydd cyn pob cwrs o driniaeth.

Ni lwyddom i roi adborth manwl ar ein canfyddiadau i bob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn am nad oedd pob deintydd yn gweithio ar

---

[9] Offer miniog diogelach yw offer miniog meddygol sydd â nodweddion neu fecanwaith i atal neu leihau'r risg o anaf damweiniol. http://gov.wales/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/sharp-instruments/?skip=1&lang=cy

[10] Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer, at ddiben triniaethau deintyddol.

[11] Offeryn sgrinio yw BPE sy'n cael ei ddefnyddio gan ddeintyddion i ganfod clefyd y deintgig.

ddiwrnod ein hymweliad arolygu. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r partner a oedd yn bresennol bod angen rhywfaint o welliannau parthed cadw cofnodion, fel y gellid ymdrin â hyn yn ôl yr angen.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i ddangos bod hanes meddygol pob claf wedi cael ei ddiweddaru a'i gydlofnodi gan y claf a'r deintydd cyn pob cwrs o driniaeth.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd rheolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau ar waith, gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i gleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff a'u bod yn gallu derbyn hyfforddiant i ategu eu datblygiad proffesiynol parhaus.**

Practis partneriaeth yw Llynfi Dental sy'n eiddo i dri deintydd ac sy'n cael ei redeg ganddynt. Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac yn cael cymorth gan reolwr cynorthwyol. Roedd y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn ôl pob golwg ac yn ymddangos yn dîm cyfeillgar.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad cyfredol ar waith. Gwnaeth y sampl o gofnodion a welsom gadarnhau hyn. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn cynnig gwasanaethau deintyddol preifat ac wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Er bod tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn amlwg, gwelsom fod angen diweddaru rhywfaint arnynt. Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai'n gwneud trefniadau addas i'r deintyddion hysbysu AGIC o'r newidiadau sy'n ofynnol, ac roedd wedi dechrau gwneud hyn cyn diwedd yr arolygiad.

Roedd gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau clinigol ar waith, gyda'r nod o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel i'r cleifion. Roedd y polisïau'n cynnwys rhai mewn perthynas â diogelu oedolion a phlant, ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu lleol. Roedd hyn yn golygu bod tîm y practis yn gallu holi am gyngor mewn perthynas â materion diogelu cleifion gan dimau lleol. Cadarnhaodd y staff y buom yn siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu. Yn ogystal, dywedodd rheolwr y practis ei bod wedi trefnu hyfforddiant ar amddiffyn plant ar gyfer 3 Gorffennaf 2015 a'i bod yn disgwyl am ddyddiad ar gyfer sesiwn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion.

Mae'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith er mwyn i gleifion fynegi pryderon (cwynion). Roedd angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Daethpwyd â hyn at sylw rheolwr y practis, a gytunodd i ddiweddaru'r wybodaeth hon yn y weithdrefn.

Gwelsom nad oedd dyddiad wrth bob polisi. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis a'r partner a oedd yn bresennol at hyn er mwyn i system addas gael ei chyflwyno i ddynodi pan fydd polisïau wedi cael eu cytuno neu eu hadolygu.

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod staff clinigol wedi derbyn brechiadau yn erbyn hepatitis B. Dywedodd rheolwr y practis y byddai'n cysylltu â’r bwrdd iechyd am gyngor ar faterion iechyd galwedigaethol. Golygai hyn fod gan y practis fynediad at gymorth am frechiadau perthnasol ac anafiadau gan offer miniog.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddogaethau, ac y byddent yn gyfforddus yn lleisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r gwaith i reolwr y practis neu'r deintyddion. Dywedodd staff wrthym fod y cyfathrebu o fewn y tîm yn dda a bod cyfarfodydd staff yn digwydd yn rheolaidd, lle y gellid trafod materion sy'n ymwneud â'r gwaith. Roedd cofnodion cyfarfodydd ar gael.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod ganddynt fynediad at hyfforddiant perthnasol i ategu eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Cofnodwyd yr hyfforddiant a ddarperir yn y practis mewn llyfr. Roedd hwn yn cynnwys dyddiad, pwnc ac enwau'r rhai a oedd yn bresennol. Roedd rheolwr y practis yn barod i dderbyn ein cynnig y dylid cryfhau'r system hon i gynnwys rhagor o fanylion am gynnwys yr hyfforddiant a ddarperir ac unrhyw wybodaeth ychwanegol oedd yn berthnasol.

Gwelsom gofnodion i ategu bod staff wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dangosai'r cofnodion hyn fod trafodaethau wedi digwydd a bod amcanion wedi eu nodi at y dyfodol i ategu datblygiad y staff yn eu swyddogaethau.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd safle'r practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, y tu mewn a thu allan. Roedd y mannau a welwyd yn lân, yn daclus, yn derbyn digon o olau ac wedi'u hawyru'n dda.**

Mae practis deintyddol Llynfi Dental ar Stryd Talbot ym Maesteg.

Er nad oedd llefydd parcio dynodedig ar gael ar gyfer y cleifion sy'n ymweld â'r practis, roedd llefydd parcio am ddim ar gael ym maes parcio cyhoeddus y dref.

Roedd arwyddion clir yn arwain at y practis, gan ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd iddo o'r brif stryd yn union y tu allan i'r practis. Roedd yr oriau agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng wedi'u harddangos yn glir yn ffenestr y practis. Golygai hyn fod rhif ar gael i'r cleifion er mwyn iddynt gael cyngor am driniaeth ddeintyddol frys pan fydd y practis ar gau. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn cael eu harddangos yn amlwg yn yr ystafell aros ar y llawr daear.

Roedd ochr allanol safle'r practis yn cael ei chynnal a’i chadw’n dda yn ôl pob golwg. Nid oedd grisiau'n arwain at y fynedfa. Golygai hyn fod y practis yn addas ar gyfer cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn neu gyfarpar cymorth cerdded.  Cadarnhaodd staff y dderbynfa y byddent yn cynorthwyo cleifion i agor y drws pe na bai perthynas neu ofalwr yn gwmni i'r claf.

Yn fewnol, roedd y practis wedi'i addurno i safon uchel ac yn lle cyfforddus i gleifion aros i gael eu gweld gan staff y practis. Roedd y dderbynfa ar y llawr daear, ynghyd â dwy ystafell driniaeth ac ystafell aros. Yn ogystal, ceid dwy ystafell driniaeth arall ac ystafell aros arall ar y llawr cyntaf. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelsom fod y mannau hyn yn lân ac yn daclus ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n addas. Roedd maint yr ystafelloedd aros yn ymddangos yn briodol o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth a nifer y cleifion a oedd yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad.

Roedd trefniadau addas ar waith i storio cofnodion papur, sganiau pelydr-X a modelau deintyddol yn ddiogel.

Darperid toiledau i'r cleifion ar y ddau lawr, ac roedd y toiled ar y llawr daear yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd y ddau doiled yn lân ac yn hylan, ac yn cynnig cyfleusterau golchi dwylo addas i leihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau'r staff ar yr ail lawr.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, ac roedd y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân yn cael ei harddangos yn amlwg. Cedwid diffoddwyr tân yn ddiogel, a dynodai'r labeli cynnal a chadw eu bod wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar.

Golygai hyn fod staff a chleifion yn gallu cael eu cyfeirio at fan diogel pe bai tân, a bod gan staff fynediad i gyfarpar diffodd tân addas.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â chyflawni'r Safonau Iechyd a Gofal. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Llynfi Dental yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Llynfi Dental

## Dyddiad yr Arolygiad: 5 Mai 2015

| **Rhif y Dudalen** | **Yr hyn sydd angen ei wella** | **Cam gweithredu'r practis** | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| | - | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| tud 10 | Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau bod hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (RhYÏ(DM)) yn gyfredol ar gyfer staff perthnasol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.<br>(Safonau Iechyd a Gofal – Safon 2.9) | Mae'r staff dan sylw wedi cwblhau hyfforddiant RhYÏ(DM). Gweler y tystysgrifau ynghlwm. | Staff dan sylw | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| tud 10 | Dylai perchnogion y practis ystyried darparu offer sugno cludadwy fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru'r DU yn y ddogfen 'Primary care: minimum equipment and drug lists for cardiopulmonary resuscitation', Tachwedd 2013. Dylid gwneud trefniadau fel y gall staff gael gafael ar y cyfarpar hwn a'i ddefnyddio'n ddiogel.<br>(Safonau Iechyd a Gofal – Safon 2.1, Safon 2.9)<br>https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/ | Prynwyd cyfarpar sugno cludadwy ac mae wedi'i leoli yn ein blwch cyffuriau brys. Cafodd yr holl staff hyfforddiant ar ei ddefnydd yn y cyfarfod staff a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2015. | Anwen Hopkins | Cwblhawyd |
| tud 14 | Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br>Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i ddangos bod hanes meddygol pob claf wedi cael ei ddiweddaru a'i gydlofnodi gan y claf a'r deintydd cyn pob cwrs o driniaeth. | Mae'r holl glinigwyr wedi derbyn canllawiau i sicrhau eu bod yn cofnodi ac yn cadw cofnodion addas. Maent hefyd wedi cael eu hysbysu y cynhelir archwiliad yn y practis bob chwe mis.<br>Gwneir yr archwiliad hwn ar hap gan reolwr y practis.<br>Datblygwyd system newydd o gadw cofnodion meddygol gan reolwr y practis drwy gyfrwng *Software of Excellence* i sicrhau bod yr holl | Corraine Morgan<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd<br>Archwiliad bob chwe mis |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (Safonau Iechyd a Gofal – Safon 3.5) | hanesion meddygol yn cael eu cadarnhau cyn ei bod hi'n bosibl parhau i siartio, codi tâl neu gwblhau. | | |
| | **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | - | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | - | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras): ANWEN HOPKINS..........................................................................**

**Teitl: DR.................................................................................................**

**Dyddiad: 24/06/15.......................................................................................**